Ein cyf/Our ref
Llythyr at ysgolion a cholegau AB yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Mai 2026

Annwyl gydweithwyr

Wrth i ni nesáu at hanner tymor, hoffem gymryd y cyfle i gyflwyno ein hunain a diolch i chi, o galon, am eich gwaith di-flino dros ein dysgwyr, ein cymunedau a'n gwlad.

Mae'n fraint wirioneddol i wasanaethu fel Gweinidog y Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg ac fel Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol. Rydym yn gwybod mae'ch gwaith chi, bob dydd, sydd yn gwneud y gwahaniaeth go iawn ar lawr gwlad. Dyna pam taw hwn yw'r llythyr cyntaf rydym ni yn ei anfon yn ein rolau gweinidogol newydd.

Mae'r ddau ohonom wedi gweithio ym myd addysg, sgiliau a gwasanaeth cyhoeddus am amser hir. Yn wir, ry'n ni wedi gweithio gyda llawer ohonoch yn y gorffennol, ac yn edrych ymlaen at barhau i wneud hynny - o ochor arall y ddesg tro hwn efallai.

Rydym am sicrhau fod ein gwaith fel Llywodraeth yn eich cefnogi chi, yn athrawon, cynorthwywyr, yn ddarlithwyr a hyfforddwyr, i ganolbwyntio ar addysgu.

Mi fydd y pedair blynedd nesaf fod yn heriol ar adegau. Ry'n ni yn deall y pwysau ry'ch chi'n ei hwynebu. Dyna pan ry'n ni am ddatblygu perthynas gadarnhaol ac adeiladol gyda chi.

Fe'n hetholwyd ar faniffesto oedd yn glir am ein ffocws ni ym maes addysg a gwyddom mai gyda'n gilydd mae llwyddo i'w cyflawni:

- **Codi Safonau -** trwy genhadaeth glir i gryfhau llythrennedd a rhifedd, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo.
- **Cefnogi'r gweithlu -** drwy fuddsoddi mewn recriwtio a datblygiad, lleihau llwyth gwaith diangen, gwella hyblygrwydd a sicrhau bod eich llais wrth galon penderfyniadau.
- **Cefnogi lles, presenoldeb ac ymddygiad -** trwy weithio ar draws gwasanaethau i greu dull cyd cysylltiedig sy'n cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd.
- **Cryfhau sgiliau ac addysg ôl-16 -** gan adeiladu cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, colegau a chyflogwyr, a sicrhau bod pob llwybr yn cael ei werthfawrogi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Anna.Brychan@llyw.cymru
Correspondence.Anna.Brychan@gov.wales
Gohebiaeth.Cefin.Campbell@llyw.cymru
Correspondence.Cefin.Campbell@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- **Datblygu cenedl sy'n dysgu -** drwy ehangu addysg Gymraeg ar draws pob sector a sicrhau tegwch a chyfleoedd i bawb.


Byddwn yn gwneud pethau'n wahanol - trwy weithio gyda chi ac yn unol â chynllun 100 niwrnod y Prif Weinidog. Byddwn yn cysylltu gyda chi cyn diwedd tymor yr haf i amlinellu'n cynlluniau ar gyfer ein Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol newydd.

Byddwn yn gwrando, yn ymgysylltu ac yn cydgynllunio, er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

Edrychwn ymlaen at weithio ochr yn ochr â chi a gobeithiwn y cewch gyfle i orffwys rhywfaint dros hanner tymor – neu y cawn ni gyfle am sgwrs yn Eisteddfod yr Urdd!

Rydym ni, fel chi yn credu'n gryf y gall addysg drawsnewid bywydau, a gweithiwn gyda'n gilydd i lwyddo.

Yn gywir,



**Anna Brychan AS/MS**
Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language



**Cefin Campbell AS/MS**
Dirprwy Weinidog dros Sgiliau ac Addysg Drydyddol
Deputy Minister for Skills and Tertiary Education